# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2013
## 9.00 - 10.30, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)**
**Mike Snook (Pennaeth Ystadau a Chyswllt Cyntaf)**
**Craig Stephenson (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol)**
**Virginia Hawkins (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)**
**Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh)**
**Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth)**

1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawyd Nicola Callow (Pennaeth Cyllid), a Lisa Bowkett (Cyfrifydd Rheoli, Gwasanaethau Ariannol) a oedd yn bresennol i gyflwyno'r gyllideb ddrafft a'r adroddiad ar y dangosyddion perfformiad.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Siân Wilkins (Pennaeth Deddfwriaeth).

1.3 Nid oedd buddiannau i'w datgan.

2.0 Cyfathrebu â staff

2.1 Cytunodd Anna Daniel i ddrafftio nodyn am drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

3.0 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2013

3.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

4.0 Cyllideb ddrafft 2014-15

4.1 Cyflwynodd Nicola Callow ddrafft gweithio o Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2014-15 er mwyn cael sylwadau'r Bwrdd arni. Bydd drafft cyntaf yr adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Comisiwn ar 18 Gorffennaf.

4.2 Roedd y Bwrdd yn gwerthfawrogi'r holl waith a wnaed i baratoi'r Gyllideb ac argymhellodd newidiadau yng nghynnwys a chynllun y ddogfen.

4.3 Cafodd y Bwrdd hefyd sylwadau cychwynnol ar Gylch Gwariant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n awgrymu bod y rhagdybiaethau ariannu'n ymddangos yn gywir. Bydd y Comisiynwyr yn cymeradwyo'r gyllideb yn derfynol ym mis Medi.

4.4 Cam i'w gymryd: Cytunodd Mike Snook i ddarparu ffigurau ar gyfer y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i ad-drefnu'r lloriau yn Nhŷ Hywel.

5.0 Adroddiad ar y Prif Ddangosyddion Perfformiad

5.1 Cyflwynodd Lisa Bowkett ddrafft o'r adroddiad cyntaf ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i'r Bwrdd, a chaiff ei ystyried gan y Comisiwn ar 18 Gorffennaf fel drafft gweithio. Byddai'r adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Yn unol â'r trafodaethau blaenorol ag aelodau'r Bwrdd, penderfynwyd dilyn y fformat coch/melyn/gwyrdd a chynnwys rhywfaint o fanylion ategol. Ar ôl sicrhau cytundeb y Comisiwn, byddai hwn yn cael ei gyhoeddi dair gwaith y flwyddyn.

5.2 Ystyriodd y Bwrdd a oedd y targedau a bennwyd yn briodol ac a ddylid cynnwys targedau eraill. Roedd y Bwrdd yn sylweddoli y gallai'r dangosyddion mewn rhai meysydd newid mewn adroddiadau yn y dyfodol wrth i'r dulliau o gipio data wella.

5.3 Cam i'w gymryd: Cytunodd y Bwrdd i gynnig esboniad pellach o statws y pum blaenoriaeth i'w gynnwys fel naratif yn yr adroddiad.

6.0 Adroddiad Misol ar Reoli Cyllid

6.1 Rhoddodd Nicola Callow adroddiad llafar - bydd y Bwrdd yn dosbarthu adroddiad mis Mai cyn bo hir, a bydd adroddiad mis Mehefin yn dilyn ar ôl diwedd y mis. Mae meysydd gwasanaeth wedi bod yn treialu'r dull newydd o ragfynegi a chafwyd data ac adborth ganddynt. Ymddengys bod y dull yn effeithiol o ran darparu gwybodaeth yn gyflym ac mae gwaith ychwanegol yn mynd rhagddo i adeiladu ar hyn. Gofynnodd Nicola i ragolygon prosiectau gael eu dychwelyd cyn gynted â phosibl.

6.2 Clywodd y Bwrdd fod 36% o'r targed Gwerth am Arian, sef £500,000, wedi'i gyrraedd eisoes erbyn mis Mai. Hefyd, mae gwariant yn ystod y flwyddyn ymhell o fewn y goddefiant ac mae'r targed o ran tanwariant yn awr wedi gostwng o 2% ar gyfer y flwyddyn, i 1% neu lai.

6.3 Roedd ansicrwydd yn parhau o ran prisiadau'r Actwari o gynllun pensiwn yr Aelodau ac, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd swm wrth gefn wedi'i neilltuo. Dywedodd Adrian Crompton fod y Bwrdd Taliadau wedi gwneud cais am gyngor ynghylch pensiynau ac roedd proses dendro wedi dechrau i ddarparu’r cyngor hwnnw. Roedd newidiadau posibl i Benderfyniad y Bwrdd Taliadau hefyd wedi'u hystyried wrth baratoi'r gyllideb, os oeddent yn hysbys.

7.0 Canlyniadau arolwg o Aelodau'r Cynulliad a’u staff cymorth

7.1 Cyflwynodd Dave Tosh ganlyniadau'r arolwg bodlonrwydd gan ddiolch i John Chick (pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau) a'i dîm am gwblhau'r gwaith mor gyflym. Roedd y Bwrdd yn falch bod y darlun yn gyffredinol yn dal yn gadarnhaol.

7.2 Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd adolygu'r canlyniadau ochr yn ochr â chynllun gweithredu'r llynedd, ystyried ei statws presennol a'r rhannau hynny y dylid eu hadolygu i ddarparu ar gyfer ymrwymiadau hirdymor a nodi unrhyw gamau allweddol, a chamau y gellid eu cymryd yn gyflym, gan roi sylw penodol i'r meysydd hynny a gafodd y sgoriau isaf. Roedd y Bwrdd yn cydnabod y byddai'n rhaid buddsoddi i gwblhau rhai camau.

7.3 Camau i’w cymryd:

- cytunwyd i ailedrych ar gwestiynau'r arolwg mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn yr hydref er mwyn eu gwella erbyn yr arolwg nesaf.
- byddai pob maes gwasanaeth yn rhoi gwybod i Dave Tosh am y camau y gellid eu cymryd yn gyflym er mwyn paratoi adroddiad amlinellol i'w gyflwyno i'r Comisiwn yn eu cyfarfod ar 18 Gorffennaf.

8.0 Rhestr ddrafft o Gofnodion i'w Cadw

8.1 Croesawyd Alison Rutherford i'r cyfarfod i gyflwyno'r Rhestr o Gofnodion i'w Cadw a ddatblygwyd o ganlyniad i'r gwaith a wnaed i gynhyrchu cofrestri o asedau gwybodaeth. Cydnabuwyd bod angen egluro pa fath o wybodaeth y dylid ei chadw ac am ba hyd. Byddai'r rhestr yn cynnwys y math o gofnodion y dylid eu cadw ac am ba hyd, gan sicrhau bod cofnodion mor gyfredol a pherthnasol â phosibl. Byddai hyn yn helpu i leihau'r peryglon yn ymwneud â diogelu data a gofynion statudol yn y cyswllt hwn. Fel rhan o'r broses, byddai angen cynnal archwiliadau i nodi a oedd gofynion deddfwriaethol ynghlwm wrth gadw rhai dogfennau arbennig ac a ddylid cadw rhai dogfennau'n barhaol at ddibenion hanesyddol.

8.2 Cytunwyd bod angen parhau i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ynghylch cadw cofnodion fel rhan o bolisïau Rheoli Asedau Gwybodaeth. Diolchodd y Bwrdd i Alison am y cynnydd a wnaed ar y prosiect hwn dros y flwyddyn ddiwethaf a nododd y byddai cyfarfod cyntaf grŵp y Swyddogion Gwybodaeth yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos.

8.3 Cam i'w gymryd: cytunwyd y byddai pob maes gwasanaeth yn paratoi rhestr o gofnodion i'w cadw erbyn diwedd toriad yr haf ac y byddai rhestr derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Rheoli i’w thrafod. Yn dilyn hyn, byddai'r meysydd gwasanaeth yn penderfynu sut i roi eu rhestr gytunedig ar waith fel rhaglen barhaus.

9.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau corfforaethol

9.1 Adolygwyd y gofrestr risg ac, yn benodol, y prif newidiadau a wnaed. Gwnaed y rhain yn dilyn cyfarwyddyd y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â chyflawni blaenoriaethau ac amcanion gwasanaethau. Byddai'r Pwyllgor yn eu harchwilio eto ym mis Tachwedd. Yn ogystal â hyn, roedd y Bwrdd Rheoli wedi mynegi pryder yn ei gyfarfod ar 23 Mai am ariannu amcanion a blaenoriaethau'r Cynulliad yn y dyfodol.

9.2 Cytunwyd y dylai'r risg yn ymwneud â gallu gynnwys y risg y gallai problemau annisgwyl godi, a allai fod yn wleidyddol sensitif ac yn ddifrifol, pan fyddai'n hanfodol bod â'r bobl, y sgiliau a'r diwylliant iawn i osgoi peryglu enw da'r Cynulliad.

9.3 Cytunodd y Bwrdd Rheoli i ailystyried a ddylid parhau i gynnwys sefydlu Senedd Ieuenctid ar y gofrestr ar ôl i'r Grŵp Llywio gyfarfod ym mis Gorffennaf.

9.4 Camau i'w cymryd:

- Byddai cyfnod penodol yn cael ei bennu ar gyfer pob risg i osod cyd-destun pob risg ac i nodi am ba hyd y disgwylir iddo barhau.

- Bydd Steven O'Donoghue yn trefnu i bob risg o ran gallu gael ei ddiweddaru'n unol â'r uchod ac, fel y cytunodd y Bwrdd, byddai'r risg i ddiogelwch gwybodaeth TGCh yn cael ei gofnodi ar wahân i risgiau diogelwch eraill er mwyn medru ei dynnu oddi ar y gofrestr yn y dyfodol.

10.0 Y Bwrdd Buddsoddi

10.1 Cam i'w gymryd:

- Cytunodd Steven O'Donoghue i ddarparu gwybodaeth gryno mewn e-bost ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd Buddsoddi.

Cloi'r cyfarfod

11.0 Unrhyw fater arall

- **Nododd y Bwrdd Rheoli y byddai'r brecinio'n cael ei gynnal ar 19 Gorffennaf.**